# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 28.3.24

## Neuadd Cymuned Glantwymyn

**19:633: Presennol**: Iwan Pughe Jones (Cadeirydd), Aeron Pughe, Paul Hughes, Deryck Lewis, Gwenfair Rhys-Davies, Bedwyr Fychan, Glyn Jones, Sandra Evans (Clerc)

**19:634: Ymddiheuriadau**: Elwyn Vaughan, Aled Griffiths, Dafydd Evans, William Owen, Huw Williams, Rhodri Wigley, Aled Griffiths, Gareth Wyn Jones, William Owen

**19:635: Materion Personol** Mynegwyd cydymdeimlad dwys â theulu Maescreiau ar golled Mrs. Annetta Jarvis.

**19:636: Datganiadau o ddiddordeb**: Paul Hughes – Neuadd Glantwymyn

**19:637: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Chwefror 2024** Nodwyd y dylid symud y cyfeiriad at Beroryn i'r adran briodol ac mai un twll oedd yn y ffordd ger Lleiniau, Darowen.

Cynigwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Deryck Lewis.

**19:638: Materion yn codi o'r cofnodion.** Yr Ambiwlans Awyr - Nodwyd gyda siom enfawr benderfyniad i symud y gwasanaeth i Ruddlan yn enwedig o ystyried y diffyg darpariaeth feddygol yn gyffredinol yn y Canolbarth. Teimlwyd mai ymarfer gwag oedd yr holl ymgynghoriadau â'r cyhoedd.

**19:639: Adroddiad y Clerc**: Nid oedd ateb wedi dod gan Jon Anderson eto. Bydd Cyngor Sir Powys yn gosod diffibriliwr Darowen ganol Ebrill.

**19:640: Cynllunio**:

- 24/0371/TRE - Works to tree in a conservation area ddjoining A470, Cemmaes. Cefnogwyd hwn.
- 24/0207/LBC Capel Samah, Cwmlline, Machynlleth, Powys SY20 9NU - Gwaith adfer. Cefnogwyd y cais gan ganmol adfer yr adeilad rhestredig hwn ac ymdrechion y perchennog i hyrwyddo'r Gymraeg.
- 22/2093/HH, 23/1250/DIS Peroryn Dol-yr-onnen – Cafwyd diweddariad gan Gyngor Sir Powys sef bod prosesau ar waith ynglŷn â symud y garreg. Cysylltir i ofyn am ddiweddariadau pellach er mwyn i'r Cyngor gadw llygad ar y datblygiadau.

**19:641: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

Cyflog y Clerc £293.40 Mis 11 Chwefror

Diweddariad ariannol

**Diweddariad Ariannol CCG a'r Gwynt Mawrth 2024**

| Cyfrif | Rhif y cyfrif | Datganiad banc | Balans – datganiad banc | Sieciau heb eu cyflwyno | Derbyn/talu | Balans gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CCG current | 80405019 | 11.3.24 | £6,779.19 | Canolfan Cymuned Glantwymyn £1500,00 101412<br><br>Canolfan Cymuned Glantwymyn £110.00 101413<br><br>Costau'r Clerc (postio) 15.45 101428 | | |
| 15.45 | | | | Cyfanswm £1,625.00 | | £5,153.74 |
| CCG savings | 80405035 | 11.3.24 | £6,110.93 | | Llog £10.81 | £1,143.02 |
| Gwynt current | 40052604 | 9.2.24 | £3,251.22 | | | £3,251.22 |
| | | | | | | |
| Gwynt savings | 60849707 | 11.3.24 | £15,314.28 | | Llog £57.06 | £15,314.28 |
| Mynwent Llanwrin | 40500941 | 11.3.24 | £1,821.43 | | Llog £6.79 | £1,821.43 |

Aelodaeth Un Llais Cymru £268 (654 annedd @ £0.41p yr un)

Gloversure INV-27160 £46.42 (Galluogi Tudalennau)

WR Partners £113.40 Gwasanaethau Cyflogres Rhagfyr 2023-Chwefror 2024

Neuadd Glantwymyn £1,500 -taliad blynyddol a £110.00 – Gohiriwyd y taliadau hyn er mwyn gwirio'r sefyllfa ariannol.)

Derbyniwyd y diweddariad ariannol a chytunwyd y dylid talu'r uchod gan bawb.

**19:642: Cyfrinachedd Cynghorwyr** – Yn dilyn pryderon am gyfrinachedd, holwyd Un Llais Cymru am y ddogfen datgan diddordeb. Nodwyd bod cael y

ddogfen datgan diddordeb Cynghorwyr ar wefan y Cyngor yn ogystal â rhyw fodd i gysylltu'n uniongyrchol â Chynghorwyr yn ôl y gyfraith. Trafodwyd sawl posibilrwydd gan gynnwys llunio cyfeiriad e-bost i bob cynghorydd at ddibenion y Cyngor yn unig a fyddai'n parchu cyfrinachedd ac ateb y gofynion ill ddau. Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad tan y tro nesaf pan fyddai mwy o gynghorwyr yn bresennol gan ei fod yn effeithio ar bawb.

**19:643: Gohebiaeth**

•**Hysbysiad Awdit 2023-2024** Nodwyd bod y dogfennau wedi cyrraedd byddai'r Cyngor yn cysylltu eto â Mrs. Eirlys Pughe ar gyfer yr awdit mewnol.

•**Refferendwm ar Dyrbinau Gwynt a Pheilonau ym Mhowys** Debyniwyd cais gan Gyngor tref Llandrindod i gefnogi cais am gael refferendwm. Tybiwyd bod cysylltu â Chynghorwyr Sir yn ffordd fwy effeithiol i yrru'r maen i'r wal.

**19:644: Mapio'r Mynwentydd** Penderfynwyd cynnal cyfarfod safle ym mynwent Darowen ddiwedd ar ôl yr ŵyna a gwahoddir unrhywun â gwybodaeth berthnasol. Trafodir dyddiad cyfleus yn cyfarfod nesaf. Yn dilyn hynny ffurfioli polisïau'r mynwentydd.

**19:645: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19.645:1: Gwenfair Rhys-Davies Y Fforwm Cleifion.** Cafwyd cyfarfod y Fforwm Cleifion yn ddiweddar. Da yw gweld bod arhosaf fysiau wrth yr Ysbyty a diolch i Fforwm y Cleifion am weithredu yn y cyswllt hwn.

**19.625:2: Iwan Pugh Eco-Dyfi** Nodwyd bod Andy Rowlands yn ymddeol o'i swydd a bod hysbysu ar waith i gael rhywun yn ei le.

**19.626: Ffyrdd a Phontydd -** Grating/culvert Pen-y-banc, Cwmlline SY20 9PE wedi blocio a dŵr ar y ffordd. Cysylltir â NMWTRA.

**19:627: Unrhyw Fater Arall**

- Diolch - Nodwyd bod Cyngor Sir Powys wedi bod yn weithgar iawn yn llenwi tyllau yn y ffordd a bydd y Clerc yn cysylltu i ddiolch.
- Lleoliadau Diffibrilwyr - Nodwyd bod diffib yn hen giosg Brynmelin. Byddai'n dda cael gwybod ble mae holl ddiffibrilwyr yn yr ardal.
- Toiledau maes parcio Machynlleth - Cysylltir ag Elwyn Vaughan i holi am yr hanes. Tybed a fyddai modd eu hail-agor.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.

**<u>Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 28.3.24</u>**

- Llythyr gan Bwyllgor Digwyddiadau Elusennol CFfI Bro Ddyfi. Cafwyd cais am gyfraniad ariannol ar gyfer digwyddiad elusennol. Er bod yr Ymddiriedolwyr yn canmol ac yn dymuno cefnogi gweithgareddau o'r math nodwyd y dylid cyflwyno ceisiadau cyn cynnal digwyddiadau. Nid oedd modd cefnogi felly ond annogir y FfI i wneud cais eto yn y dyfodol.
- Daeth llythyr i law gan Glwb Rygbi Machynlleth lle mae nifer o bobl ardal yn mynychu. Penderfynwyd trafod y cais yn y cyfarfod nesaf gan nad oedd cyfle i'w osod ar yr agenda a bod angen mwy o fanylion penodol.
- Daeth y cyfarfod i ben am 9.50yh.